

Newyddion am bartneriaeth newydd gyffrous i Helfa Gelf yn 2018

Picturehaus - Gŵyl Ffilm Gelfyddydol Helfa Gelf 2018

Mae Manorhaus yn falch o gyflwyno'r Wyl Ffilm Gelfyddydol gyntaf ar y cyd â Helfa Gelf; cynhelir dangosiadau yn ein sinema *boutique* 18-sedd ym mwyty Manorhaus yn Rhuthun. Mae cysyniad y Picturehaus yn syml: rydym yn gweini bwydlen o ddau gwrs penodol, gydag opsiwn llysieuol, am 7pm. Caiff y ffilm ei dangos am 8pm ac fe weinir hufen iâ Chilly Cow yn ystod yr egwyl. Pris tocyn yw £22.50, yn cynnwys pryd dau gwrs, ffilm a hufen iâ yn ystod yr egwyl. Rhaid prynu tocynnau ar-lein ymlaen llaw.

I brynu tocynnau:

ewch i wefan <http://www.picturehausfilmclub.com>

theipiwech y cyfrinair 'casablanca'

weld y wybodaeth am y ffilm, y fwydlen a gwybodaeth bellach am y lleoliad.

Dydd Gwener 7 Medi 2018

Loving Vincent

Dydd Sadwrn 15 Medi 2018

Mr Turner

Dydd Gwener 21 Medi

Human Flow

Dydd Sadwrn 29 Medi 2018

Exit Through The Gift Shop

Lleoliad: manorhaus, Stryd y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1AH 01824 704830

<http://www.manorhaus.com>

Rhaid prynu tocynnau ar-lein cyn cyrraedd. Mae'r sinema wedi'i lleoli mewn adeilad Tuduraidd rhestredig, yn yr islawr. Yn anffodus, nid yw'n hygyrch i bobl anabl.

Loving Vincent

Vincent van Gogh yw peintiwr enwocaf y byd. Mae ei gynfasau 'Noson o Sêr', 'Teras Caffi gyda'r Nos', 'Blodau'r Haul', 'Cae Gwenith a Brain' ac, yn wir, ei nifer fawr o hunan-bortreadau ymhlith delweddau mwyaf adnabyddus ein diwylliant.

Mae Vincent yn enwog nid yn unig am ei baentiadau ond hefyd am ei fywyd anodd a chythryblus - torrodd ei glust ei hun a saethu'i hun wrth yr îsl wrth iddo baentio; ac fe barhaodd i baentio tan ddiwedd chwerw ei fywyd. Ef yw'r 'artist dioddefus' nodweddiadol. Mae *Loving Vincent* yn canolbwyntio ar fywyd a gwaith yr artist trwy adrodd hanes rhai o baentiadau mwyaf ysbrydoledig Vincent van Gogh.

Mr Turner

Mae'r ffilm hon yn archwilio chwarter canrif olaf bywyd yr artist Prydeinig gwyh ac ecsentrig, JMW Turner (1775-1851). Caiff marwolaeth tad Turner effaith enbyd arno, mae meistres ei dŷ yn ei garu - ac mae e'n ei hecsbloetio hi'n rhywiol o bryd i'w gilydd. Mae e'n ffurfio perthynas agos â landledi mewn tref lan môr ac yn byw gyda hi, incognito, yn Chelsea, lle mae e'n marw maes o law. Drwy gydol hyn i gyd, mae e'n teithio, yn paentio, yn aros gydag aelodau o'r dosbarth bonedd, yn ymweld â phuteindai, yn dod yn aelod poblogaidd - os anarchaidd - o'r Academi Frenhinol, yn strapio'i hun i fast llong er mwyn gallu paentio storm eira, ac yn cael ei ddathlu a'i feirniadu gan y cyhoedd a'r teulu brenhinol.

Human Flow

Cafodd dros 65 miliwn o bobl ledled y byd eu gorfodi i adael eu cartrefi er mwyn ffoi rhag newyn, newid hinsawdd a rhyfel yn y dadleoliad dynol mwyaf ers yr Ail Ryfel Byd. Mae Human Flow, taith ffilm epig yr artist byd-enwog Ai Weiwei, yn fynegiant gweledol grymus o'r ymfudo dynol enfawr hwn. Mae'r ffilm ddogfen yn esbonio graddfa anhygoel yr argyfwng ffoaduriaid a'i effaith anhraethol ar fywydau unigol.

Wedi'i ffilmio dros gyfnod o flwyddyn mewn 23 o wledydd, mae'r ffilm yn dilyn cadwyn o straeon dynol argyfyngus ledled y byd mewn gwledydd sy'n cynnwys Affganistan, Bangladesh, Ffrainc, Gwlad Groeg, yr Almaen, Irac, Israel, yr Eidal, Kenya, Mecsico, a Thwrci. Mae Human Flow yn tystio i fywydau ei chymeriadau a'u hymchwil despert nhw am ddiogelwch, lloches a chyfiawnder; o wersylloedd ffoaduriaid dan eu sang i fordeithiau peryglus a gwifrau pigog y ffin; o ddadrith a dadleoliad i ddewrder, dygnwch ac addasu; o apêl y bywydau a adawyd ar eu holau i botensial anhysbys y dyfodol.

Exit Through The Gift Shop

Stori gudd mudiad 'Street Art', sy'n datgelu'r hyn sy'n digwydd pan ddaw enwogrwydd, arian a fandaliaeth i wrthdrawiad â'i gilydd. Mae Exit Through the Gift Shop yn dilyn ceidwad siop ecsentrig sy'n troi'n wneuthurwr ffilmiau amatur wrth iddo geisio recordio rhai o fandaliaid enwocaf y byd ar gamera. Ond mae artist stensiliau Prydeinig o'r enw Banksy yn troi'r camera ar y ceidwad siop ei hun - ac mae'r canlyniadau'n gwbl annisgwyl. Mae Exit Through the Gift Shop yn un o'r ffilmiau mwyaf pryfoclyd am gelfyddyd erioed ac yn astudiaeth ddiddorol o fân droseddu, cymdeithion a bwngleriaeth. Ffilm syfrdanol, ddoniol ac absŵrd - stori dylwyth teg fodern hefyd ... gydag offer torri gwifrau.